# Papur y Bwrdd

29 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Cwblhau Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn Derfynol** |
| **Cyfeirnod Papur:** | **Papur B B 57.16** |
| **Noddir y Papur Gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynir y Papur Gan:** | Michael Evans |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas y Papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | Cadarnhau cwblhau SoNaRR yn derfynol.<br>Cynghori ar y ffordd orau o ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ynglŷn â'r camau nesaf. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer - mae'n bosibl na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Ym mha ffordd y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu CNC i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Effaith ar yr Amgylchedd**:<br>Bydd Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn llywio'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) a fydd yn nodi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymagwedd yn SoNaRR yn cysylltu cydnerthedd yr ecosystem â risgiau i lesiant, yn awr ac yn y dyfodol.<br><br>**Effaith ar yr Economi**:<br>Drwy adrodd ar ffordd gynaliadwy o reoli Adnoddau Naturiol Cymru a llywio'r NNRP, bydd SoNaRR yn nodi cyfleoedd i ymgymryd â dulliau arloesol o ymdrin â newid sydd o fudd i'r economi ac i adnoddau naturiol yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| | **Effaith ar y Gymuned**:<br>Drwy adrodd ar reolaeth gynaliadwy Adnoddau Naturiol Cymru a llywio'r NNRP, bydd SoNaRR yn ysgogi newidiadau i lesiant pobl Cymru.<br><br>**Effaith ar Wybodaeth:**<br>Bydd SoNaRR yn goladiad tystiolaeth am Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru ac yn asesiad o raddfa cyflawni rheolaeth gynaliadwy. Bydd yn waelodlin ac yn ychwanegu at ein gwybodaeth. |

**Mater**

1. Cadarnhau bod SoNaRR wedi ei gwblhau'n derfynol.

2. Cynghori ar y ffordd orau o ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ynglŷn â'r camau nesaf.

**Cefndir**

3. Trafododd y Bwrdd SoNaRR yng nghyfarfodydd mis Mawrth a mis Gorffennaf. Yng nghyfarfod mis Gorffennaf, penderfynwyd cwblhau'r adroddiad yn derfynol allan o sesiwn yn ystod mis Medi i ganiatáu i ni fodloni#r amserlen ar gyfer cyhoeddi fel y'i nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

4. Rydym wedi gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Y cam nesaf yw i Weinidogion Cymru baratoi Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

5. Rydym yn cydnabod nad ydym wedi cyflawni ein huchelgais ein hunain o ymgysylltu a chydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid wrth gynhyrchu'r adroddiad cyntaf hwn. Roedd trafodaethau cynnar yn caniatáu i rai o'n partneriaid rannu data a thystiolaeth, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Fodd bynnag, nid ydym wedi dilyn hyn gydag ymgysylltiad ynglŷn â'r offer a'r technegau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fwlch ac rydym yn benodol iawn yn yr adroddiad ynglŷn â phwysigrwydd defnyddio lansiad yr adroddiad yn llwyfan ar gyfer ymgysylltu a chydweithredu.

6. Rydym wedi gweithredu i ragbaratoi partneriaid a rhanddeiliaid ynglŷn â phwrpas ac amcanion yr adroddiad drwy ei gynnwys mewn cyfarfodydd busnes rheolaidd. Rydym hefyd wedi cynnal cyfres o weminarau, cyflwyniad yng nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a rhannu drafft terfynol yr adroddiad â rhanddeiliaid a fynychodd y gweminarau er mwyn osgoi unrhyw elfennau annisgwyl.

## Asesiad

**Camau Nesaf yr Ymgysylltiad**
7. Rydym yn cydnabod bod cyhoeddi'r SoNaRR cyntaf yn garreg filltir bwysig i'n staff yn ogystal â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid. Yr adroddiad yw cynnyrch cyntaf Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n dangos bod yr ymagwedd newydd yn wirioneddol wahanol. Ein bwriad yw:

8. Ar gyfer ein staff:
- Ymgysylltiad a briffio pwrpasol ar gyfer arweinwyr a rheolwyr er mwyn iddynt gael arwain yr ymgysylltiad â'u timau hwy ynglŷn â'r gwahaniaeth
- Briffio pwrpasol ar gyfer pob aelod staff sy'n mynychu ac yn arwain ymgysylltiad â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn dangos iddynt sut mae defnyddio SoNaRR yn y fforymau hyn
- Gweminarau fel cyfres o sesiynau briffio cyffredinol ar yr ymagwedd, yna gweminarau cryno ar gydnerthedd, llesiant, y gofrestr risg a chyfleoedd
- Gweithdai wyneb i wyneb ar ystyr SoNaRR i'n cynllun corfforaethol newydd a'n hamcanion o ran llesiant

9. Ar gyfer ein rhanddeiliaid a'n partneriaid:
- Gweithdy 4 diwrnod ar Ddatganiad Ardal ar ddechrau Medi, gan ddatblygu elfennau allweddol SoNaRR
- Mae gweithdai a gweminarau dilynol yn cael eu datblygu gyda sectorau a grwpiau penodol
- Cyfres o gyfleoedd i siarad mewn cynadleddau, er enghraifft Fforwm Polisi Cymru ym mis Tachwedd.

## Argymhellion

10. Cadarnhau bod SoNaRR wedi ei gwblhau'n derfynol.

11. Cynghori ar y ffordd orau o ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ar y camau nesaf.

## Risgiau Allweddol

12. Rydym wedi amlygu cyn hyn y risg na fydd rhanddeiliaid yn deall pwrpas SoNaRR heb fwy o ymgysylltiad, ac na fydd modd inni wireddu'n llawn y cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

**Goblygiadau Ariannol**

13. Mae costau cynhyrchu SoNaRR wedi eu cynnwys yn ein cyllidebau, yn ogystal ag elfen ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

14. Amherthnasol.

Atodiad: